Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Brîff 7 Munud

## Teitl: GwASB 2/2019 Adolygiad Ymarfer Oedolion

**Crynodeb o'r Themâu Dysgu:**

- Sicrhau bod asesiadau, gwaith monitro ac adolygu anghenion a risgiau unigolyn yn gyson â'r gofal a ddarperir mewn gwirionedd.
- Gwerthuso bod y gofal a ddarperir mewn gwirionedd yn cyfateb i'r gofal y contractiwyd ar ei gyfer.
- Ystyried a chydbwyso'r gofal a ddarperir ar ymddiriedaeth â'r angen i sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau gofal.
- Sicrhau bod hyfforddiant staff gofal yn cyfateb i anghenion yr unigolyn sy'n derbyn gofal, yn cyfrif am unrhyw risgiau penodol a nodwyd ac yn cael ei werthuso wrth arolygu.
- Mae ymateb yr Heddlu i farwolaeth heb ei egluro yn cael ei ddiwygio i gynnwys hysbysiad i oruchwyliwr amddiffyn y cyhoedd ac yn eu habsenoldeb i'r Ditectif Rhingyll ar Ddyletswydd.

*Gweler yr adolygiad ymarfer llawn ar gyfer yr holl argymhellion*

**Cyflwyniad**

Comisiynwyd Adolygiad cryno o Ymarfer Oedolion gan gadeirydd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan yn dilyn marwolaeth dyn 67 oed a elwir nawr yn A. Fe'i disgrifiwyd gan bobl a oedd yn ei adnabod fel person hyfryd gyda chwerthiniad heintus, cymeriad â hanner - "roeddech chi'n gwybod pan oedd yn yr ystafell". Roedd yn dibynnu ar ofal eraill am ei holl anghenion gofal. Roedd ganddo anabledd dysgu a sawl cyflwr hirdymor arall. Roedd yn byw mewn lleoliad byw â chymorth ers 2010 ac yn cael cymorth gofal un i un.

**Cefndir**

Yn 2015 cyfeiriwyd A am asesiad ynghylch ei allu i fwyta ac yfed yn ddiogel a lluniwyd Cynllun Bwyta ac Yfed. Roedd anghenion A ynghylch bwyta ac yfed yn cynnwys torri ei fwyd, cymorth a goruchwyliaeth agos, awgrymiadau llafar a threfniadau staffio cyson. Yn y y lleoliad byw â chymorth, roedd yn ymddangos – wrth i amser fynd yn ei flaen, y disodlwyd y gymorth agos hwn gyda threfniadau monitro llai caeth, ond heb eu disgrifio. Ym mis Mawrth 2017, cafodd A bwl o dagu mewn bwyty archfarchnad leol; cafodd A ei archwilio gan ei feddyg teulu ond ni hysbysodd y darparwr gofal y digwyddiad i'r comisiynydd nag i'r corff rheoleiddio. Nododd asesiad risg nad oedd y pwl o dagu a gafodd yn ddifrifol iawn oherwydd yr oruchwyliaeth dybiedig amser bwyd a difrifoldeb y sefyllfa pe bai'n tagu.
Cafodd A bwl arall o dagu ym mis Rhagfyr 2017 a arweiniodd at ei farwolaeth.

**Dysgu Allweddol - Marwolaethau Sydyn mewn Amgylcheddau Gofal**

Dylid hysbysu Ditectif Rhingyll PPU, ac yn eu habsenoldeb y Ditectif Rhingyll ar ddyletswydd, am unrhyw farwolaethau mewn cartrefi gofal, i asesu a oes angen adnodd Ditectif. Rhaid i Swyddogion Heddlu sy'n mynychu fod yn ymwybodol o fodolaeth cynlluniau gofal a dylent gyfeirio atynt yn yr adroddiad ar gyfer y crwner.




**Dysgu Allweddol - Asesu Risg**

Yn yr asesiadau ac asesiadau risg, roedd gwybodaeth ddefnyddiol bod y risg tagu yn hysbys ac yn ddealladwy. Roedd y Cynllun Bwyta ac Yfed yn fanwl ac yn syml ac roedd yn ymddangos ei fod wedi'i ddosbarthu'n eang. Asesodd asesiad risg WARRN y risg o dagu fel rhywbeth annhebygol ond trychinebus pe bai'n digwydd. Prin oedd y dystiolaeth o'r ddealltwriaeth o'i allu meddyliol a'i allu i werthuso canlyniadau ei ddymuniadau.

**Dysgu Allweddol - Sicrhau y darperir gofal**

Er bod y system o adolygiadau gan weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ac iechyd, monitro contractau gan yr awdurdod lleol, ymweliadau rheoliadol gan y Rheoleiddiwr ac adborth gan aelodau'r teulu yn rhoi rhywfaint o sicrwydd o ansawdd y gofal a ddarperir, mae'r system gyfredol yn dibynnu ar rywfaint o ymddiriedaeth y bydd darparwyr gofal dan gontract yn darparu lefelau gofal o ansawdd a diogel, wedi'u llywio gan gynlluniau gofal a rheoli risg.
Y darparwr gofal cartref oedd yn gyfrifol am ddarparu lefelau diogel o ofal i A yn y lleoliad byw â chymorth.
Nid oedd yn ymddangos bod chwilfrydedd proffesiynol i nodi a oedd trefniadau gofal yn cael eu dilyn, a oedd arfer datganedig y darparwr wedi newid y risgiau a nodwyd ac a oedd yn gyffredinol yn amgylchedd gofal digon da i A.

**Dysgu Allweddol - Cynlluniau Gofal a Rheoli Risg**

Dywed y cynllun gofal a chymorth oedd yn comisiynu gofal A yn ei leoliad byw â chymorth bod angen help arno gyda maeth ac yfed hylifau. Roedd sut i wneud hyn wedi'i nodi'n glir yn y Cynllun Bwyta ac Yfed. Ategwyd hyn gan gyngor ac arweiniad Therapydd Iaith a Lleferydd.
Mae'r cyngor hwn yng nghynllun darparu gwasanaeth y darparwr gofal ond mae'n ychwanegu'r ymadrodd y dylai staff oruchwylio "pryd fo'n bosibl". Nid oes unrhyw dystiolaeth bod comisiynydd y gwasanaeth na gweithwyr proffesiynol eraill wedi gweld y cynllun hwn. Yn ôl adborth staff y darparwr gofal mewn adolygiad amlasiantaethol, nid oeddent yn darparu cymorth agos oherwydd dewisiadau A. Does dim yn dangos y cafodd hyn ei herio ac ni sbardunodd fynd ati i gynnal adolygiad o anghenion gofal A.

Gellir darllen adroddiad llawn APR (Adolygiad Ymarfer Oedolion) yn [www.gwentsafeguarding.org.uk](http://www.gwentsafeguarding.org.uk)